

# CVau Meddygol

## Datblygu CV Meddygol

Mae eich CV yn floc adeiladu ar gyfer sawl agwedd ar ddatblygiad eich gyrfa, megis:

- Eich DPP eich hun
- Ychwanegiad ar gyfer ceisiadau am swydd
- Rhwydweithio gyrfaol

Yn fyr, mae CV yn hysbyseb i chi. Mae hysbyseb dda yn eich gwneud chi eisiau gwybod mwy am gynnyrch. Mewn CV, chi yw'r cynnyrch.

## Dechrau

Mae datblygu eich CV yn gallu bod yn anodd ac mae yna rai manylion y dylid eu cynnwys bob amser fel - manylion personol, addysg a hanes cyflogaeth.

Rhan allweddol o ddrafftio'ch CV yw alinio'r sgiliau a'r diddordebau rydych chi wedi'u datblygu gyda'r opsiynau gyrfa penodol rydych chi'n anelu at eu harchwilio. Meddyliwch yn galed am y sgiliau rydych chi wedi'u datblygu o ysgol feddygol, profiad dewisiadol, eich hyfforddiant hyd yn hyn, profiad gwaith arall (yn daladwy ac yn ddi-dâl), hyd yn oed hobiau a diddordebau perthnasol.

Canolbwyntiwch ar gyflwyno'r sgiliau a'r priodoleddau o'ch profiad blaenorol sy'n dangos tystiolaeth o'ch addasrwydd ar gyfer y rôl benodol. Er enghraifft:

- Hyfforddiant arbenigol - sgiliau, galluoedd a phrofiadau sy'n berthnasol i fanyleb y person ar gyfer yr arbenigedd
- Meddygaeth academiaidd - profiad ymchwil, cyhoeddiadau
- Gyrfaoedd portffolio - cyfuno diddordeb o faes tebyg neu heb berthynas.

Os ydych chi'n archwilio nifer o opsiynau gyrfa, dylech chi deilwra a chreu CV ar gyfer pob un, gan deilwra'r dystiolaeth i gyd-fynd â'r hyn a geir yn y Disgrifiad Swydd a gwybodaeth am Fanyleb Person

## Elfennau allweddol CV meddygol

- Manylion personol: enw, cyfeiriad, ffôn neu gyfeiriad e-bost. Mae manylion am oedran, teulu, statws priodasol yn ddiangen ac yn nodweddion a ddiogelir.
- Rhif CMC ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â chymhwyster e.e. statws preswyl, canlyniadau PLAB / IELTS.
- Cynllun gyrfa / uchelgais: eich nod gyrfa a sut bydd y swydd hon yn cyd-fynd â'r cynllun
- Cymwysterau proffesiynol: fel arfer mewn trefn Gronolegol tuag yn ôl (y mwyaf diweddar yn gyntaf)
- Addysg: crybwyll gwobrau, gwahaniaethau, dewisiadau, aseiniadau astudio arbennig
- Profiad gyrfaol: yn cynnwys teitl swydd a lleoliad mewn trefn Gronolegol tuag yn ôl
- Rhowch frawddeg neu ddau yn rhoi trosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau, rhowch fwy o wybodaeth am swyddi diweddar.
  - Sgiliau ymarferol: Crynhowch brofiad arbennig, hefyd sgiliau technegol / clinigol allweddol.
  - Cyrsiau ychwanegol.
  - Ymchwil: ynghyd ag unrhyw gyhoeddiadau a chyflwyniadau cysylltiedig.
  - Addysgu: i bwy ac ym mha bynciau.
  - Archwiliad: cynnwys eich rôl yn y broses, y canlyniad a'r gwelliannau mesuradwy.
- Rheolaeth / Arweinyddiaeth: yn cynnwys rolau y tu allan i'r gwaith.
- Gwella Ansawdd: prosiectau yr ydych chi wedi bod yn rhan ohonynt neu'n arwain.
- Sgiliau perthnasol eraill: sgiliau nad ydynt yn glinigol e.e. iaith a sgiliau TG penodol.
- Diddordebau: Cynnwys cwpl o'ch diddordebau sy'n ychwanegu gwerth at eich cais.

Canolwyr: O leiaf dau a gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'ch canolwyr ymlaen llaw.

Peidiwch â rhoi rhestrau hir o swyddi, cyrsiau, cyflwyniadau ac ati. Rhowch eitemau mewn clystyrau a grwpiau ac yn cynnwys eglurhad byr neu bwyntiau bwled sy'n tynnu sylw at bwyntiau allweddol neu gyflawniadau

### laith ac arddull

Gall y ffordd y dywedwch rhywbeth fod mor bwysig â'r hyn a ddywedwch. Mae'r un peth yn wir wrth ysgrifennu CV. Mae angen i chi fod yn gadarnhaol, proffesiynol a brwdfrydig yn eich CV.

- Dewiswch eiriau gydag effaith a fydd yn cyfleu'ch gallu i gyflawni. Y geiriau gorau i'w defnyddio yw geiriau GWEITHREDU. Enghreifftiau yw: -

Wedi'i gyflawni	Rheolwyd	Cynhyrchwyd
Perswadio	Cyflwynwyd	Trefnwyd
Gweithredu	Datblygwyd	Ymchwilwyd
Negodi	Crewyd	Arweiniwyd

- Dechreuwch eich brawddegau gyda'r geiriau gweithredu hyn; peidiwch â gorddefnyddio'r gair "Fi/i".
- Cadwch frawddegau yn fyr, gan osgoi naratif. Bydd hyn yn gwneud eich CV yn gryno.
- Defnyddiwch iaith gadarnhaol bob tro. Ystyriwch eich pwyntiau gwerthu unigryw.

### Cyfrinachau Cyflwyno

Mae cyflwyniad a chynllun hefyd yn bwysig:

- Nid yw'r geiriau "Curriculum Vitae" fel tudalen flaen bob amser yn angenrheidiol
- Osgoi gadael gormod o le gwyn ar unrhyw dudalen.
- Amlygu'r wybodaeth allweddol ar ddechrau pob adran, mae hyn yn tynnu sylw'r timau recriwtio at y wybodaeth bwysicaf a chyfoes.
- Cadwch y fformatio fel tabiau, indentation a bwled mewn arddull gyson a defnyddio ffont sy'n hawdd ar lygad y darlennydd. Mae ffontiau plaen megis Arial neu Tahoma yn gweithio'n dda.
- Defnyddio teip trwm i dynnu sylw at wybodaeth, yn hytrach na llythrennau neu danlinellu.
- Cofiwch gadw maint y pwynt yn ddarllenadwy. Mae CVau Meddygol yn dueddol o fod yn llawer hwy na'r ddogfen 2 dudalen. Ni ddylai CV meddygon gyrfa gynnar fod yn fwy na 3 - 4 tudalen ac nid mwy na 8 - 10 tudalen ar gyfer hyfforddeion uwch.

### Proffil Personol neu Nod Gyrfaoel

Gall hyn fod yn ffordd wych o gael sylw'r tîm recriwtio a rhoi syniad i'r darlennydd o'ch cynllun gyrfa ac uchelgeisiau'r dyfodol. Dylai ddangos positifrwydd ac uchelgais ar gyfer y 5-6 mlynedd nesaf.

Ni ddylai'r datganiad fod yn fwy na dwy neu dair brawddeg byr yn amlinellu beth yw eich nod gyrfaoel, yr hyn yr ydych yn ei gynnig, a'r hyn yr ydych yn chwilio amdano nawr. Gellir addasu hyn i gyfateb â gwahanol arbenigeddau neu geisiadau am swydd.

Os ydych chi'n cynnwys proffil personol, sicrhewch fod y sgiliau rydych chi'n eu tynnu sylw atynt yn cael eu hadlewyrchu drwy gydol eich CV.

Os ydych chi'n gwneud cais am waith y tu allan i'r DU, edrychwch ar y fformat CV safonol ar gyfer y wlad honno ac addaswch eich CV yn unol â hynny. Yn UDA, er enghraifft, mae'r pwyslais ar ddogfen gryno ac mewn rhai gwledydd disgwylir ffotograff; mae eraill yn disgwyl portffolio o dystiolaeth atodol.

### CV yn y llwybr gyrfa sefydledig

Trwy gydol eich gyrfa feddygol bydd gennych chi gyfoeth o waith a phrofiad bywyd a all fod yn werthfawr i gyflogwyr yn y dyfodol. Os ydych chi'n ystyried newid gyrfa neu gyfeiriad arbennig dylech ganolbwyntio ar y sgiliau trosglwyddadwy a enillwyd mewn swyddi blaenorol. Mae gwybod sut i fapio'r rhain i gyfleoedd eraill yn allweddol i gwrdd â'r rhestr fer. Ystyriwch eich holl swyddogaethau ac nid o reidrwydd eich profiad diweddaraf.

Bydd angen i chi dal i gyfrif am gyfnodau o absenoldeb.

Fodd bynnag, gallwch greu nifer o benawdau sy'n tynnu sylw at y sgiliau a'r rhinweddau yr ydych am eu cymhwyso mewn cyfeiriad newydd, yna amlinellwch gyflawniadau a phrofiadau allweddol ar gyfer pob un e.e.

- Arweinyddiaeth a Rheolaeth
- Ymchwil / Academiaidd
- Rheoli prosiectau
- Addysgu / Addysg
- Gwaith amlddisgyblaeth
- Mathau o ofal cleifion / cyswllt sy'n

berthnasol i'r opsiwn sydd gennych mewn golwg (ee cleifion brys / cronig, hŷn neu iau ac ati)